# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Gorffennaf 2023

Amser: 14.00 - 14.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13403

# HYBRID

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Joel James AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Luke Fletcher AS a Buffy Williams AS.

## 2 Deiseb y Flwyddyn

Cyhoeddodd y Cadeirydd mai deiseb y flwyddyn y pleidleisiodd pobl Cymru drosti oedd P-06-1212, sef Cyfraith Mark Allen - rydym ni am weld gorsafoedd cortyn taflu o amgylch pob safle dŵr agored yng Nghymru.

Llongyfarchodd yr Aelodau y prif ddeisebydd Leeanne Bartley a phawb a gyfrannodd at y ddeiseb.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-06-1338 Ymestyn y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a datblygu cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer bysiau

Datganodd Jack Sargeant AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Undeb Unite ac mae wedi cael llawer o negeseuon e-bost a llythyrau gan bobl sy’n cefnogi eu hymgyrch.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu’n ôl at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i:

- ofyn a sicrhawyd datrysiad ariannol ar gyfer gweddill y flwyddyn fel y nodwyd yn natganiad mis Mai, ac
- ateb y cwestiynau penodol a godwyd gan y deisebydd.

### 3.2 P-06-1339 Dylid creu gofyniad bod paneli solar yn cael eu gosod ar bob cartref newydd yng Nghymru, a hynny fel amod o sicrhau caniatâd cynllunio

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod y Gweinidog yn glir iawn ynghylch ei dull gweithredu a pham.

Yng ngoleuni ymateb y Gweinidog cytunodd yr Aelodau nad ydynt yn gallu mynd â'r mater ymhellach a chytunwyd i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 3.3 P-06-1342 Ariannu mwy o leoedd mewn ysgolion arbenigol a staff i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i godi ymwybyddiaeth o'r ddeiseb yng ngoleuni eu hymchwiliad presennol;
- aros am yr adroddiad yn sgil adolygiad thematig Estyn ym mis Medi; a
- rhoi cyfle pellach i'r deisebydd wneud sylwadau ar yr ohebiaeth a ddaeth i law gan Lywodraeth Cymru.

### 3.4 P-06-1343 Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod Senedd Ieuenctid Cymru wedi cynnal arolwg o bwys ar drafnidiaeth, sy'n cau dros yr haf. Yn sgil hyn, cytunodd yr Aelodau i wahodd rhai o aelodau Senedd Ieuenctid Cymru i gyflwyno eu canfyddiadau i'r Pwyllgor Deisebau mewn cyfarfod tua diwedd mis Tachwedd.

Hefyd, cytunodd yr Aelodau i ofyn am ddiweddariad gan y Gweinidog ar yr adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr.

### 3.5 P-06-1348 Comisiynu gwasanaethau GIG addas yng Nghymru ar gyfer pobl â Syndrom Ehlers-Danlos (EDS) neu anhwylderau sbectrwm hypersymudedd.

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae ganddo aelodau o'r teulu sy'n dioddef o'r cyflwr.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu pryderon a phrofiadau cleifion a gofyn iddi ateb y cwestiynau a godwyd gan y deisebydd.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y bydd dadl ar y cyd yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf ar yr adroddiad gan y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gymerodd ran a nododd fod amrywiaeth eang o randdeiliaid a roddodd dystiolaeth ar gyfer y ddau ymchwiliad wedi'u gwahodd i'r Senedd i wylio'r ddadl.

### 4.2 P-06-1232 Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- anfon cwestiynau'r deisebydd ymlaen at y Gweinidog i ofyn am ragor o fanylder, yn enwedig o ran amseru; ac i
- aros am ddiweddariad gan y Gweinidog ar y penderfyniad ynghylch galw'i mewn geisiadau cynllunio ar gyfer unedau dofednod.

**4.3 P-06-1287 Rhaid ymchwilio i benderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gau'r feddygfa yng ngogledd Penarth a symud cleifion i feddygon teulu sydd ymhell i ffwrdd.**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd nad oes unrhyw beth arall y gall y Pwyllgor ei wneud i fwrw ymlaen â'r ddeiseb o ystyried nad yw'r Gweinidog yn gallu ymyrryd mewn penderfyniadau sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y bwrdd iechyd lleol. Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

**4.4 P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru**

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r digwyddiad diweddar a gynhaliwyd gan y deisebydd yn y Senedd ar 21 Mehefin.

Trafododd yr Aelodau y ddeiseb gan nodi, er bod cefnogaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i gynnal ymchwiliad i wasanaethau milfeddygol yng Nghymru, nid yw hyn yn rhan o'u blaenraglen waith ar hyn o bryd, felly mae'n annhebygol y caiff y gwaith ei gynnal yn y ddau dymor nesaf.

Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad undydd yn nhymor yr hydref a gwahodd Coleg Brenhinol y Milfeddygon, a chynrychiolwyr o'r maes i roi tystiolaeth. Nododd yr Aelodau y byddai ymchwiliad byr ar y ddeiseb yn parhau i olygu bod gwaith manylach gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn parhau'n bosibl yn ddiweddarach, a phan fydd ganddo'r gallu i wneud hynny.

### 4.5 P-06-1306 Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi’r gorau i dorri coed

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) bellach wedi pasio cyfnod 4. Yn sgil hyn, cytunodd yr Aelodau i ddiolch i’r deisebydd ac i gau’r ddeiseb.

### 4.6 P-06-1313 Dylid caniatáu eithriadau i'r rheol deiliadaeth 182 diwrnod i leihau niwed i fusnesau hunanddarpar dilys yng Nghymru.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd, gan fod Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2023 bellach wedi'u rhoi ar waith nad oes unrhyw gamau pellach y gall y Pwyllgor eu cymryd. Caewyd y ddeiseb a diolchwyd i’r deisebydd.

### 4.7 P-06-1317 Cydnabod pwysigrwydd Cynorthwywyr Addysgu fel asedau pwysig i ysgolion drwy godi eu cyflog

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y gwaith parhaus a’r trafodaethau o ran safoni a gwella amodau gwaith ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu.

Yng ngoleuni'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â’r materion, cytunodd yr Aelodau i gadw'r ddeiseb ar agor ac i ofyn am ddiweddariad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Ionawr 2024.

### 4.8 P-06-1319 Rhowch groesfan i gerddwyr ar yr A4042 wrth groesffordd Goytre Arms a lleihau’r terfyn cyflymder i 20mya

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod:

- gwaith ar y groesffordd wedi dechrau;

- mae’r Gweinidog wedi darparu ymateb cynhwysfawr i’r materion a godwyd gan y deisebydd; a
- bydd canllawiau newydd ynghylch terfynau cyflymder yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Yng ngoleuni hyn, llongyfarchodd y Pwyllgor y deisebydd ar ei ymgyrch i wneud y groesffordd yn ddiogel a chytunodd i gau’r ddeiseb.

### 4.9 P-06-1320 Dyrannu cyllid ychwanegol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i sicrhau ei fod yn gynaliadwy

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd ei gamau blaenorol i aros am y gyllideb derfynol a'r setliad Llywodraeth Leol. O ystyried bod hyn bellach wedi mynd heibio cytunodd yr Aelodau i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 4.10 P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a llongyfarchodd y deisebydd ar ei ymgyrchu llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd. Roedd yr Aelodau’n croesawu’r canlyniad cadarnhaol, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus. O ystyried hyn, cytunodd yr Aelodau felly i gau'r ddeiseb.

### 4.11 Papur i'w nodi- P-06-1326 Dylai’r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

Cafodd y papurau eu nodi.

### 4.12 P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

### 4.13 P-05-914 Mynediad Cyfartal i Ofal Iechyd ar gyfer pobl anabl

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cynllun Gwaith Hydref 2023

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.